Cerys Jones

From: North Planning <NorthPlanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>
Sent: 09 October 2015 14:45
To: planning_admin
Subject: P/2015/0743 - 59 Blue Bell Lane, Pandy - NRW Response NRW:01040106
Attachments: StandardAdvice.doc

Eich Cyf / Your Ref: P/2015/0743

Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod.

Mae pob rhywogaeth o ystlumod a'u mannau clwydo'n cael eu gwarchod o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i newidiwyd) a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i newidiwyd). Argymhellwn eich bod yn cysylltu gyda'ch Tim Bioamrywiaeth/ Ecolegydd ynglyn a'r angen am arolwg ystlumod. Os y penderfynir fod angen arolwg ystlumod yna buasem yn ddiolchgar iawn pe gallech ymgynghori gyda ni ar yr arolwg ystlumod cyn penderfynu'r cais.

Dylech nodi nad ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar bob rhywogaeth a chynefin a restrir yn Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, neu ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol neu nodweddion lleol eraill o ran treftadaeth naturiol. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd eich awdurdod dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig o ran gwarchod bioamrywiaeth, dylai eich penderfyniad ystyried yr effeithiau andwyol posibl ar nodweddion o'r fath. Rydym yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor pellach gan ymgynghorydd ecolegol mewnol eich awdurdod a/neu sefydliadau cadwraeth natur megis yr Ymddiriedolaeth Natur leol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac ati. Mae gan wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ganllawiau ar sut i asesu cynigion sy'n effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 (www.biodiversitywales.org.uk).

Tynnwn eich sylw at y canllawiau ar gyfer datblygwyr sydd ynghlwm. Gofynnwn i gopi o'r canllawiau hyn gael ei roi i'r ymgeiswyr gydag unrhyw ganiatâd a roddir ar gyfer y cynnig.

Nid oes gennym sylwadau pellach. Cofiwch gysylltu os ydych angen mwy o wybodaeth.

Thank you for consulting Natural Resources Wales regarding the above proposal. NRW have the following comments:

Bats and their roosts are protected under the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 (as amended) and the Wildlife and Countryside Act 1981 (as amended). We advise that you should consult your internal ecologist with regards to the potential impact of the proposed development on the favourable conservation status of populations of bats.

Should your ecologist advise that further information is required in order to assess the likely impact of the development on bat species, NRW would wish to be re-consulted on the protected species assessments supporting the planning application.

Please note that we have not considered possible effects on all species and habitats listed in section 42 of the Natural Environment and Rural Communities (NERC) Act 2006, or on the Local Biodiversity Action Plan or other local natural heritage interests. To comply with your authority's duty under section 40 of the NERC Act, to have regard to conserving biodiversity, your decision should take account of possible adverse effects on such interests. We recommend that you seek further advice from your authority's internal ecological adviser and/or nature conservation organisations such as the local Wildlife Trust, RSPB, etc. The Wales Biodiversity Partnership's web site has guidance for assessing proposals that have implications for section 42 habitats and species (www.biodiversitywales.org.uk).

We refer you to the 'Guidance notes for developers' that is attached. We request that a copy of the guidance notes is provided to the applicants with any permission given for the proposal.

Please do not hesitate to contact me if you require any further information or clarification.

Diolch / Thanks

Sara P Jones